Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cefn Coch
# Penrhyndeudraeth
# Gwynedd
# LL48 6AE

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Cefn Coch

Lleolir Ysgol Gynradd Cefn Coch ym mhentref Penrhyndeudraeth yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 179 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 20 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 8 dosbarth un oed.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 13% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol (19%). Mae tua 80% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 15% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n is na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2010. Ers Medi 2016, mae hefyd yn gweithredu fel pennaeth mewn ysgol arall gyfagos. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy'n bodoli yno. Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a symbylus sy'n sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, annibynnol. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron bob un mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Nodwedd eithriadol yw eu defnydd medrus a chelfydd o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ardderchog ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion, i ddefnyddio eu dychymyg ac i gymryd rhan mewn perfformiadau yn cyfrannu'n hynod o effeithiol i wella deilliannau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth hynod effeithiol a chyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae diwylliant o wella, adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi gwreiddio'n gadarn. Nodwedd arbennig yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n hynod o effeithiol. Mae hyn wedi arwain at gymuned addysgu gref lle mae staff yn dysgu gan ei gilydd yn effeithiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau rhesymu ac ymholi, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu strategaethau blaengar i hyrwyddo medrau mynegiannol a chreadigol disgyblion i wella eu deilliannau a'u lles, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd. Mae medrau llafar Cymraeg yr ychydig ddisgyblion a ddaw o gartrefi ble ni siaredir y Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Mae medrau gwrando a siarad rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn canolbwyntio'n dda ac yn trafod eu tasgau â hyder cynyddol gan ddefnyddio geirfa eang a chywir. Maent yn ateb cwestiynau'n ddeallus gan roi rhesymau aeddfed am eu hatebion, er enghraifft wrth drafod wy'r deinosor. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau grŵp, er enghraifft wrth gyd-gynllunio stori ddychmygol. Maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall, er enghraifft wrth drafod safiad Malala Yousafel dros hawliau merched ym Mhacistan.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r llawer yn darllen y gywir, yn rhugl ac ystyrlon. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau a'r cymeriadau'n ddeallus. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, er enghraifft wrth ddysgu am fywyd y Celtiaid. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn llithr ddarllen am wybodaeth yn fedrus, er enghraifft wrth ddysgu am ynni adnewyddol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus, er enghraifft wrth i ddisgyblion y dosbarth derbyn ysgrifennu ystod effeithiol o frawddegau syml yn disgrifio'u hunain. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol ac yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu storïau estynedig, fel 'Fydda i byth bythoedd yn bwyta tomato' yn ogystal â darnau ffeithiol diddorol am Kenya a'i phobl yn dilyn gwaith ar 'Grempog Mam Papya.' Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at y llywodraethwyr i ofyn am fenthyg swm o arian ar gyfer sefydlu menter busnes.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth dda o strategaethau rhif. Maent yn eu defnyddio'n hyderus i ddatrys problemau ar draws y meysydd dysgu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth helpu Wil Wiwer i ddidoli llythyrau oedd wedi'u cymysgu neu wrth gynllunio ac adeiladu pont i groesi'r iard. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a data. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio

ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth greu graddfa fyddai'n eu galluogi i ffitio planedau cysawd yr haul i mewn i iard yr ysgol. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd yn cymhwyso eu medrau rhesymu ac ymholi yn ddigon cyson mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn hyderus iawn ac yn defnyddio amrediad o raglenni sy'n cyfoethogi'r dysgu yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â pha offer i'w ddefnyddio i gyflawni tasgau penodol. Maent yn cymhwyso eu medrau TGCh i safon uchel ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu cyflwyniadau amlgyfrwng er mwyn cyflwyno'u gwaith ar fywyd y Celtiaid. Maent yn creu a defnyddio cronfa ddata'n ddeallus i gefnogi eu gwaith ar gynefinoedd bwystfilod bach. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus iawn i chwilio am wybodaeth, er enghraifft am gysawd yr haul. Nodwedd eithriadol o'u gwaith yw eu defnydd medrus a chelfydd o amrywiaeth eang o raglenni i greu ffilmiau diddorol a chreadigol i safon uchel iawn. Mae hyn yn datblygu eu medrau creadigol yn hynod o effeithiol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn falch i fod yn rhan o'i chymuned. Mae safonau lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn arbennig o gadarnhaol. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel. Maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn dangos lefel uchel iawn o ofal tuag at ei gilydd a thuag at eraill mewn gwersi ac ar adegau anffurfiol. Mae disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed i hybu a chefnogi lles eu cyfoedion. Mae'r 'Cyfeillion Cŵl' yn sicrhau bod eu cyfoedion iau yn hapus amser egwyl, gan gynnwys dangos iddynt sut i chwarae'n llwyddiannus. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn mwynhau mynychu'n gyson ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd amlwg tuag at ddysgu. Maent yn ymwybodol o bwy i droi atynt mewn achosion o bryder, gan fod yn hyderus bod y staff yn gwrando arnynt.

Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy'n bodoli. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn dysgu. Drwy gyfrannu at gynllunio themâu ymarferol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i'r tasgau dysgu. Maent yn dangos diddordeb tuag at holl waith y dosbarth ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig.

O oed cynnar, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Ar frig yr ysgol, mae ganddynt ymwybyddiaeth aeddfed o'u cyrhaeddiad a'r cam nesaf yn eu dysgu. Enghraifft wych o hyn yw aeddfedrwydd grŵp o ddisgyblion hŷn wrth drafod eu llwyddiant mewn cystadleuaeth creu ffilm genedlaethol.

Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n datblygu medrau creadigol y disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau bod disgyblion yn llwyr fwynhau eu profiadau dysgu ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, hyderus ac annibynnol sy'n cydweithio'n gytûn. Mae brwdfrydedd byrlymus y disgyblion wrth gyflwyno perfformiadau creadigol yn heintus. Mae disgyblion yn cyflwyno rhaglen radio fyw ddwywaith yr wythnos ac yn defnyddio eu medrau TGCh yn hynod o gelfydd i greu ffilmiau o safon uchel ar gyfer eu darlledu ar eu sianel deledu. Mae hyn yn datblygu eu medrau creadigol a'u hyder yn hynod o effeithiol.

Mae llais y disgybl yn cael sylw haeddiannol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent yn ei gyflawni i wella'r ysgol. Maent yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd eang i leisio barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn ddiolchgar bod arweinwyr yn ymddiried ynddynt ac yn cymryd eu syniadau o ddifrif. Maent yn gwneud hyn drwy gyfrwng amrywiaeth o bwyllgorau gan gynnwys y cyngor ysgol. Mae aelodau yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill o fewn y gymuned ysgol. Nodwedd ragorol yw cyfraniad aeddfed y criw digidol wrth addysgu disgyblion eraill sut i ddefnyddio TGCh i reoli tegan ar hyd llwybr penodedig yn y neuadd ac wrth helpu eu cyfoedion i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi gweithgareddau fel gwasanaethau diolchgarwch yn y capel a chyngherddau yn y neuadd gymunedol. Nodwedd arbennig yw cyfraniad y cyngor ysgol wrth drefnu cyngerdd Siarter Iaith i hybu'r neges 'sut allwn ni wella'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ym Mhenrhyndeudraeth?'. Maent yn cyfrannu'n gyson tuag at elusennau amrywiol, er enghraifft i gefnogi teuluoedd lleol ac yn cydweithio ag aelodau o'r gymuned i wella amgylchiadau plant yn Nepal. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Maent yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol sydd ar gael ac mae llawer yn eu mynychu'n rheolaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at ddatblygiad eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol. Mae bron bob un yn deall pwysigrwydd cadw'u hunain yn ddiogel yn yr ysgol, gartref, ar y ffordd ac ar-lein.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae staff yn sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu gefnogol a gweithgar. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol ac yn datblygu brwdfrydedd y disgyblion tuag at ddysgu. Mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion dderbyn amrediad o brofiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog. Mae themâu difyr sy'n bodloni meysydd y cwricwlwm cyfan a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli ac mae'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r holl staff

yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u treftadaeth a diwylliant Cymru; er enghraifft, mae disgyblion yn cydweithio ag awduron enwog wrth gynhyrchu stori ddychmygol ar gyfer plant bach. Mae athrawon yn trefnu ymweliadau amrywiol â safleoedd hanesyddol, fel castell Harlech, sy’n sicrhau y caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddylanwad tywysogion Cymreig fel Owain Glyndŵr ar yr ardal.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy’n sicrhau bod y disgyblion yn ymroi’n llawn yn eu gwersi. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm ac maent yn cysylltu eu gwersi’n effeithiol â dysgu blaenorol. Yn yr ychydig o’r dosbarthiadau lle mae’r addysgu ar ei orau, mae’r athrawon yn cynllunio’n greadigol iawn i sbarduno ac ysgogi disgyblion yn effeithiol iawn. Mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o’r addysgu. Mae’r athrawon yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â’r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol iawn. Yn yr ychydig o enghreifftiau lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, ar adegau mae oedolion yn tueddu i or-gyfarwyddo gweithgareddau, er enghraifft wrth gyflwyno ymholiadau gwyddonol. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblionwneud dewisiadau ynglŷn â’u dysgu.

Mae’r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig cadarn i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella’u gwaith. Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i’w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio’n llawn. Mae’r athrawon yn ystyried anghenion a diddordebau unigolyn drwy themâu trawsgwricwlaidd medrus sy'n cynnwys mewnbwn a llais y disgybl yn llwyddiannus ymhob dosbarth. Mae hyn yn sicrhau ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy’n ysgogi ac yn herio'r disgyblion, fel eu bod yn ymroi’n llwyr i’w dysgu.

Mae’r fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi eu hymgorffori’n gadarn yng nghynlluniau’r ysgol. Mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar, er enghraifft wrth gyfrannu’n rheolaidd i’r orsaf radio. Mae ystod amrywiol a diddorol o lyfrau yn y dosbarthiadau sy’n ysgogiad effeithiol i ddenu disgyblion ac yn cael effaith arwyddocaol ar eu medrau darllen. Mae’r athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddarllen o ystod o ddeunyddiau fel rhan o’r gwaith thematig, ac i ysgrifennu’n effeithiol mewn amrediad o ffurfiau. Mae cyfleoedd cadarn i ddisgyblion y cyfnod sylfaen ddatblygu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau rhif a datrys problemau disgyblion. Er hyn, nid ydynt yn sicrhau digon o gyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhesymu ac ymholi yn ddigon cyson mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft mewn gwyddoniaeth. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ardderchog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol mynegiannol. Mae hyn yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau bod disgyblion yn llwyr fwynhau eu profiadau dysgu ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Nodwedd eithriadol o'r ddarpariaeth yw'r modd y mae athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg a'u medrau TGCh wrth ymwneud â'r celfyddydau creadigol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at fagu awch a brwdfrydedd byrlymus ymysg disgyblion at ddysgu a chyflwyno gwaith celfyddydol mynegiannol o safon uchel. Enghraifft hynod o effeithiol yw gwaith disgyblion wrth ddarlledu 'Radio Cŵl' ac wrth greu cyfres o raglenni ar gyfer eu gorsaf deledu. Mae hyn yn cyfrannu'n hynod effeithiol at godi ymwybyddiaeth disgyblion o fanteision defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cyfredol a digwyddiadau cyfoes. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu llwyddiant mewn cystadleuaeth trwy Brydain ar greu ffilm ddychmygol anturus.

Mae staff yn darparu amrywiaeth ragorol o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a thu hwnt, gan ddatblygu eu hunanhyder, a'u balchder yn eu hunain. Enghreifftiau hynod effeithiol o hyn oedd cyfle i berfformio gyda Chwmni Ballet Cymru ac i greu cryno ddisg gyda disgyblion ysgol arbennig leol, sydd hefyd yn datblygu eu gallu i gydweithio ag eraill.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth greu cyflwyniad amlgyfrwng am Hedd Wyn a'r bechgyn ifanc lleol fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd y gwaith hwn effaith arbennig ar ddisgyblion, nid yn unig wrth ddatblygu eu medrau llafar a TGCh ond ar eu dealltwriaeth o effaith emosiynol a dirdynnol y rhyfel ar yr ardal leol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Elfen eithriadol yw'r pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol a dyfalbarhad personol drwy strategaeth lles yr ysgol. Mae'r sylw gofalgar mae'r staff ysgol yn ei roi i ystyried llais y disgybl a hawliau plant yn cyfrannu'n effeithiol at gyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd. Mae staff yn trefnu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, er enghraifft am bwysigrwydd parchu pob unigolyn. Wrth astudio effaith gwahanol grefyddau ar ddiwylliannau ar draws y byd, caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach a magu parch tuag at bobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd. Mae staff yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill, er enghraifft drwy godi arian at elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn helpu staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym ac i drefnu ymyrraeth briodol. Mae'r drefn yn sicrhau cefnogaeth ofalgar i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n glòs ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion. O ganlyniad, mae cynlluniau effeithiol ar waith sy'n galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd cadarn a chyson. Mae staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys agweddau emosiynol a

chymdeithasol yn fedrus. Mae'r rhaglenni cymorth penodol yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae dulliau cyfathrebu priodol yn sicrhau bod rhieni'n cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi hyn, ac o ganlyniad, maent yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi dysgu eu plant. Mae 'cyfeillion yr ysgol' yn cyfrannu cyllid sylweddol, er enghraifft drwy ddarparu cyfarpar deniadol i ardal allan y cyfnod sylfaen ac wrth brynu adnoddau TGCh sy'n galluogi'r ysgol i wireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth glir o fwyta'n iach a chadw'n ffit. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion.

Mae trefniadau diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth flaengar a chadarn ac yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol sy'n hyrwyddo diwylliant cryf a chyson o godi safonau. Mae ganddo weledigaeth arloesol ar gyfer datblygu'r ysgol sy'n cael ei rhannu'n frwd gyda'r dirprwy a phob un o'r staff a llywodraethwyr. Mae ei ddisgwyliadau uchel yn deillio o werthoedd addysgol clir ac amcanion uchelgeisiol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn arbennig o effeithiol wrth nodi arbenigedd a chryfderau staff, ac o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau'n bwrpasol iawn. Mae aelodau'r staff yn gwerthfawrogi ei ymddiriedaeth ynddynt i ddatblygu meysydd dysgu er mwyn codi safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ardderchog, fel datblygu medrau TGCh a chymhwysedd digidol disgyblion. Mae'r pennaeth hefyd yn arwain swyddogion awdurdodau eraill ar effeithiolrwydd strategaethau Siarter Iaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r holl staff yn wynebu newidiadau a datblygiadau cyfredol ym myd addysg yn frwdfrydig a hyderus. Maent wedi ymrwymo i hyrwyddo creadigedd disgyblion trwy drefnu nifer o brofiadau ysgogol a chyffrous, er enghraifft wrth gynnal prosiect gydag awduron i ddatblygu a hyrwyddo medrau llafar, ysgrifenedig, creadigol a digidol disgyblion. Mae'r agwedd hon yn gryfder yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi gweithio'n llwyddiannus iawn gydag athrawon i ddatblygu'r cwricwlwm a sicrhau dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion trwy waith tîm hynod effeithiol. Mae'r pennaeth a'r staff yn annog a hyrwyddo ethos cadarnhaol a llwyddiannus o gydweithio. Mae cymorthyddion yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at wella safonau, lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad hynod o gadarn ac mae cyfleoedd hyfforddi llwyddiannus yn eu cefnogi'n effeithiol. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff fel arweinwyr yn yr ysgol, a thu hwnt, yn llwyddiannus iawn, er enghraifft drwy hyrwyddo'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a materion rheolaethol. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i rannu a datblygu arferion dysgu

proffesiynol sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau disgyblion, safon eu gwaith a'u hagwedd tuag at ddysgu. Mae bron pob aelod o staff yn elwa ar gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n bodloni blaenoriaethau'r ysgol a dyheadau personol y staff yn effeithiol iawn.

Nodwedd gref yw'r modd mae'r pennaeth wedi datblygu rôl y corff llywodraethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad a gweithdrefnau'r ysgol trwy raglen o ymweliadau ac arsylwadau perthnasol. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r modd heriol a thrylwyr mae'r llywodraethwyr yn ystyried safonau a chynnydd disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn grŵp cefnogol iawn sy'n cynnig cymorth adeiladol i'r tîm arweinyddol ac yn rhannu arbenigeddau proffesiynol, gwerthfawr mewn meysydd penodol. Mae eu mewnbwn strategol cyson i drefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion. Mae gweithdrefnau trylwyr a manwl yn galluogi arweinwyr i fonitro ac arfarnu perfformiad yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau hinsawdd lwyddiannus o dargedu a herio disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial a gwneud gwelliannau cyraeddadwy. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o ddata yn effeithiol i arfarnu cyflawniadau a chynnydd disgyblion. Maent yn annog safbwyntiau a barn disgyblion a rhieni'n barhaus, er enghraifft wrth ehangu rôl y cyngor ysgol i fonitro blaenoriaethau rhifedd yn y cynllun datblygu ysgol trwy holi barn disgyblion am waith datrys problemau. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddisgyblion, sy'n gwerthfawrogi fod y pennaeth yn ystyried a chynnwys eu barn. Mae cynllun datblygu cynhwysfawr yr ysgol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu, ac yn cynnwys manylion am y prif flaenoriaethau yn glir. Mae calendr strategol misol yn arf llwyddiannus iawn i sicrhau monitro rheolaidd, trefnus a pharhaus.

Mae gan yr ysgol adnoddau da, niferus ac mae arweinwyr yn sicrhau defnydd pwrpasol o gyllideb yr ysgol i wella'r ddarpariaeth. Caiff gwariant ei reoli a'i fonitro'n bwyllog, ac mae'n cysylltu'n ofalus â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae ysgol yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol trwy amrywiaeth o grantiau neilltuol sy'n effeithio'n gryf ar safonau a datblygiad creadigol y disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i wella safonau llythrennedd a rhifedd, er enghraifft i ddatblygu darllen Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/08/2018